



Darpar-Aelod Gwybodaeth

1. Cyflwyniad

Bwriad categori'r Darpar-Aelod yw annog a chefnogi myfyrwyr a rhai sydd ar ddechrau eu gyrfaoedd ym myd cyfieithu. Bydd ymgysylltu â'r Gymdeithas fel Darpar-Aelod yn dangos fod gennych ddiddordeb gwirioneddol mewn dilyn gyrfa fel cyfieithydd. Wrth wneud hynny gallwch elwa ar rwydweithiau, cynghorion, a rhai o weithgareddau'r Gymdeithas, gan gynnwys gweithdai ac arholiadau.

Ni chodir tâl arnoch i gofrestru fel Darpar-Aelod.

2. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff proffesiynol cenedlaethol i gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun neu'n gyfieithwyr ar y pryd. Nod y Gymdeithas yw cynnal, hyrwyddo a sicrhau'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg/Saesneg, yn ogystal â sicrhau bod y diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu'r Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth i unigolion: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd. Rhaid i bob aelod ymrwymo i'r Cod Ymddygiad Proffesiynol wrth dalu ei dâl aelodaeth flynyddol. Mae gan y Gymdeithas hefyd drefn ar gyfer cydnabod cwmnïau cyfieithu cymwys yn y sector preifat a sefydliadau cyhoeddus a rhai yn y trydydd sector y mae ganddyn nhw unedau cyfieithu ac yn cyflogi eu cyfieithwyr eu hunain.

Ariennir y Gymdeithas yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

I gael gwybod rhagor am Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ewch i'n gwefan, <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/>

3. Darpar-Aelod

3.1 Mae cydnabyddiaeth fel Darpar-Aelod ar gael i:

- unrhyw un sy'n dilyn cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.
- unrhyw un sydd wedi ei g/chyflogi fel cyfieithydd dan gynllun prentisiaeth
- unrhyw un o fewn eu 3 blynedd gyntaf fel cyfieithydd.

3.2 Ar ddiwedd y cyfnod hwn, oni bai fod y Darpar-Aelod wedi llwyddo yn un o arholiadau'r Gymdeithas ac wedi dod yn aelod Cyflawn, Sylfaenol neu CAP, caiff ddewis a yw am gael ei gynnwys yng nghronfa ddata'r Gymdeithas o gysylltiadau fel y gall barhau i gael gwybodaeth am ein gweithgareddau. Wrth wneud hyn a pharhau i gael gwybodaeth, y gobaith yw bydd

cyn Darpar-Aelod yn sefyll un o arholiadau'r Gymdeithas o fewn cyfnod rhesymol ac yn unol â'u hamgylchiadau gwaith.

3.3 Ni chodir tâl am gofrestru fel Darpar-Aelod.

3.4 Ymhlith y manteision y gall unigolion elwa ohonyn nhw wrth fod yn Darpar-Aelod mae:

- mynediad i weithgareddau'r Gymdeithas am bris gostyngol, gan gynnwys gweithdai ac arholiadau.
- Derbyn bwletin newydd a bwletin swyddi'r Gymdeithas
- cyngor gan y Gymdeithas ynghylch y proffesiwn/diwydiant cyfieithu a dod yn gyfieithydd.

4. Statws Darpar-Aelod

4.1 Ni fydd y Darpar-Aelod yn aelod o'r Gymdeithas, felly, ni fydd ganddo/ganddi bleidlais ym materion y Gymdeithas ac ni chaiff sefyll i fod yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Gymdeithas. Categori o gydnabyddiaeth yw Darpar-Aelod.

4.2 Ni chaiff enwau'r Darpar-Aelod eu cyhoeddi ar wefan y Gymdeithas nac yn gyhoeddus yn unman arall gennym.

4.3 Bydd hawl gan Darpar-Aelod i nodi hynny ar ei CV ac wrth chwilio am waith ond ni ddylid awgrymu fod o/hi wedi pasio unrhyw un o arholiadau/profion y Gymdeithas.

5. Gwneud cais i fod yn Ddarpar-Aelod

5.1 Gall myfyriwr wneud cais i fod yn Ddarpar-Aelod ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs y mae'n ei ddilyn.

5.2 Gall person sy'n gyflogedig drwy gynllun prentisiaeth wneud cais ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod prentisiaeth.

5.3 Gall person wneud cais ar unrhyw adeg yn ystod eu 3 blynedd gyntaf fel cyfieithydd.

5.4 Wedi i chi ddarllen y wybodaeth yn y daflen hon, llenwch y ffurflen gais. Mae'n gofyn am wybodaeth amdanoch chi a thystiolaeth am eich cwrs neu gyflogaeth.

5.5 Anfonwch y ffurflen gais ar e-bost i swyddfa@cyfieithwyr.cymru